Cynulliad Cenedlaethol Cymru
**Ymchwil y Senedd**

# Negodiadau ynghylch Ymadawiad y DU â'r Undeb Ewropeaidd

## Adroddiad Monitro Brexit

18 Mawrth 2019



Y Cynulliad a BREXIT

Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru, i gytuno ar drethi yng Nghymru, ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol:
**www.cynulliad.cymru**

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
**Bae Caerdydd**
**CF99 1NA**

Ffôn: **0300 200 6307**
E-bost: **GarethDavid.Thomas@Cynulliad.Cymru**
Twitter: **@SeneddYmchwil**
Blog: **SeneddYmchwil.blog**

**© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2019**
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
**Ymchwil y Senedd**

# Negodiadau ynghylch Ymadawiad y DU â'r Undeb Ewropeaidd

## Adroddiad Monitro Brexit

18 Mawrth 2019

**Awduron:**
Nigel Barwise, Gethin Davies, Manon George, Peter Hill, Sara Moran a Gareth Thomas

Y Cynulliad a BREXIT

# Cynnwys

**1. Cyflwyniad ..... 1**

Crynodeb o'r datblygiadau ..... 1

**2. Datblygiadau yn San Steffan a Brwsel ..... 6**

Llinell amser ar gyfer y datblygiadau allweddol hyd at yr ail 'bleidlais ystyrlon' ..... 6

Pleidleisiau Tŷ'r Cyffredin ar 12-14 Mawrth ..... 8

Datblygiadau ers 14 Mawrth ..... 11

Y camau nesaf ..... 12

Deddfwriaeth Brexit ..... 13

Is-ddeddfwriaeth ..... 16

**3. Datblygiadau yng Nghymru ..... 19**

**4. Meysydd o ddiddordeb i'r Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol ..... 23**

Adroddiad Pwyllgor Materion yr Alban yn Nhŷ'r Cyffredin: yr Alban, masnach a Brexit ..... 23

Menter Cadernid Trefi ..... 24

Effaith Brexit ar addysg uwch ac addysg bellach ..... 24

**Negodiadau ynghylch Ymadawiad y DU â'r Undeb Ewropeaidd:** Adroddiad Monitro Brexit

# 1. Cyflwyniad

Mae'r adroddiad hwn yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am ddatblygiadau sy'n ymwneud â Negodiadau Erthygl 50 ynghylch ymadawiad y DU â'r UE ers 4 Chwefror 2019.

Mae'r papur hwn yn rhoi:

- Crynodeb bras o'r datblygiadau diweddaraf yn y negodiadau a deddfwriaeth gysylltiedig y DU;
- Dadansoddiad manwl o'r datblygiadau allweddol yn San Steffan a Brwsel;
- Dadansoddiad o ymateb Llywodraeth Cymru a Chynulliad Cenedlaethol Cymru i'r datblygiadau diweddaraf; a
- Dadansoddiad o'r materion sydd o ddiddordeb i'r Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol (y Pwyllgor).

## Crynodeb o'r datblygiadau

Mae'r Undeb Ewropeaidd yn paratoi nifer o gamau unochrog yn achos Brexit 'dim cytundeb', fel arfer yn dibynnu ar fesurau cyfatebol yn y DU. Mae'r Cyngor, y Senedd a'r Comisiwn yn paratoi safbwyntiau ar **deithio awyr; teithio heb fisa; cludo nwyddau ar y ffyrdd a theithwyr ffyrdd; myfyrwyr Erasmus +, rheolau cyd-drefnu nawdd cymdeithasol a chyllideb yr UE; rheilffyrdd; parodrwydd tollau; mewnforion ac allforion anifeiliaid.**

30 Ionawr: **Siaradodd yr Arlywydd Juncker a'r Prif Drafodwr Michel Barnier yn Senedd Ewrop** yn ystod y ddadl ar Brexit, y diwrnod ar ôl i **Dŷ'r Cyffredin bleidleisio yn erbyn Brexit 'dim cytundeb' ac os metha popeth arall**. Gwnaethant ddweud na fydd y Cytundeb Ymadael, gan gynnwys os metha popeth arall, yn cael ei aildrafod. Gwnaethant ddweud bod y Cytundeb Ymadael yn llwyddo i gadw ffin Iwerddon 'fel ag y mae', yn golygu bod y DU yn dod yn diriogaeth dollau unigol, ac yn diogelu'r Farchnad Sengl.

31 Ionawr: Cynhaliwyd seithfed cyfarfod y Fforwm Gweinidogol (Negodiadau'r UE) yng Nghaeredin a chyhoeddwyd **datganiad o'r Fforwm**. Roedd Jeremy Miles AC, y Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Brexit, yn bresennol.

7 Chwefror: Mewn **datganiad ar y cyd ar ran y Prif Weinidog a'r Llywydd Juncker**, cytunwyd i barhau i weithio i geisio dod o hyd i ffordd sy'n dderbyniol i ddau Dŷ Senedd y DU, Senedd Ewrop a'r UE27.

Mae paratoadau Llywodraeth y DU ar gyfer 'dim cytundeb' yn cynnwys gwybodaeth am: **Trwyddedau gyrru rhyngwladol; gyrwyr bysiau a choetsys; gyrwyr loriau a cherbydau nwyddau; gweithdrefnau symlach trosiannol ar gyfer tollau; aros yn y DU am fwy na 3 mis os nad oes cytundeb Brexit**; yn ogystal â **llythyrau CThEM yn rhoi cynghorion i fusnesau sy'n masnachu gyda'r UE yn unig os bydd Brexit heb gytundeb**. Mae yna hefyd **gytundeb rhwng y DU, Norwy, Gwlad yr Iâ a Liechtenstein i ddiogelu hawliau dinasyddion, a chytundeb tebyg rhwng y DU a'r Swistir.**

Ar 5 Chwefror, **siaradodd Prif Weinidog y DU ym Melffast**, ac ar 11 Chwefror **ymatebodd i Jeremy Corbyn**, yn dilyn ei **lythyr ef ar 6 Chwefror â yn gosod pum peth yr oedd yn gofyn amdano ynghylch Brexit.**

Ar 7 Chwefror, **cyhoeddodd Prif Weinidog Cymru a Phrif Weinidog yr Alban ddatganiad Brexit ar y cyd** yn gofyn i Brif Weinidog y DU wrthod senario 'dim cytundeb' a gofyn am estyniad i gyfnod Erthygl 50.

Ar 12 Chwefror, gwnaeth Prif Weinidog y DU **ddatganiad yn Nhŷ'r Cyffredin**, ac yn dilyn hyn cafwyd **dadl ar Brexit** ar 14 Chwefror, gan arwain at Lywodraeth y DU yn colli'r bleidlais.

Yn y Dáil ar 21 Chwefror, cynhaliodd y Cyd-bwyllgor ar Weithredu Cytundeb Gwener y Groglith ddadl ar **Effaith Brexit ar Gytundeb Gwener y Groglith**.

Ar 25 Chwefror, cynhaliwyd **wythfed cyfarfod y Fforwm Gweinidogol (Negodiadau'r UE)** yng Nghaerdydd. Roedd Jeremy Miles AC yn bresennol.

Ar 26 Chwefror, gwnaeth Prif Weinidog y DU **ddatganiad yn Nhŷ'r Cyffredin**, ac yn dilyn hyn cafwyd **dadl ar Brexit** ar 27 Chwefror. Penderfynodd y Tŷ gynnal ail 'bleidlais ystyrlon' ar 12 Mawrth, a phe câi hynny ei wrthod, ar 14 Mawrth i bleidleisio a ddylid gadael heb gytundeb.

Ar 26 Chwefror cyhoeddodd y Llywodraeth ddogfen o'r enw **Implications for business and trade of a no deal exit on 29 March 2019**, gan ddatgan ei fod yn adlewyrchiad teg o ba mor barod yw'r DU am ymadawiad heb gytundeb. Yn ôl y ddogfen:





> there is little evidence that businesses are preparing in earnest for a no deal scenario, and evidence indicates that readiness of small and medium-sized enterprises in particular is low. As of February 2019, many businesses in the food supply industry are unprepared for a no deal scenario. … Despite the use of a continuity approach where possible, and notwithstanding very significant efforts to prepare for a no deal scenario, the impact of a no deal scenario is likely to be severe in a number of areas. … Overall, the cumulative impact from a 'no deal' scenario is expected to be more severe in Northern Ireland than in Great Britain, and to last for longer.

Ar 27 Chwefror, cyhoeddodd y Llywodraeth fod 18 parti arall i **Gytundeb Sefydliad Masnach y Byd ar Gaffael Llywodraeth** wedi cytuno y gall y DU barhau i gymryd rhan yn y farchnad honno:

> Overseas businesses will be able to bid for £67 billion worth of public sector contracts in the UK every year. In return, British suppliers will be able to bid for £1.3 trillion worth of government contracts overseas in a wide range of sectors from large infrastructure to professional and business services

Hedfanodd y Prif Weinidog i Frwsel ar 11 Mawrth i geisio eglurhad pellach ar y Cytundeb Ymadael a'r Datganiad Gwleidyddol. Yn ystod **cynhadledd i'r wasg**, dywedodd yr Arlywydd Juncker: "There will be no further interpretations of the interpretations; and no further assurances of the re-assurances". Cyhoeddwyd **Datganiad ar y Cyd ochr yn ochr â'r Datganiad Gwleidyddol, Offeryn yn ymwneud â'r Cytundeb Ymadael**, a **Datganiad gan y Comisiwn. Ysgrifennodd y Llywydd Juncker at y Llywydd Tusk** hefyd yn gofyn i'r Cyngor Ewropeaidd ar 21-22 Mawrth gymeradwyo'r dogfennau, yn amodol ar Dŷ'r Cyffredin yn pasio'r Cytundeb Ymadael.

Ar 5 Mawrth, cynhaliodd y Cynulliad ddadl ynghylch y **Trafodaethau ar Ymadael â'r UE**. Cynhaliwyd y ddadl yr un pryd â **dadl debyg yn Senedd yr Alban**. Y penderfyniad oedd: gwrthwynebu'r Cytundeb Ymadael, gwrthod 'dim cytundeb' ac ymestyn cyfnod Erthygl 50.

Hefyd ar 11 Mawrth, cyhoeddodd Llywodraeth y DU restr o'r nwyddau a all gael eu cludo ar y **capasiti cludo nwyddau a sicrhawyd gan y llywodraeth** - meddyginiaethau, llaeth babanod, meddyginiaethau milfeddygol, cemegau'r sector ynni.

Yn Nhŷ'r Cyffredin ar 12 Mawrth, cyflwynodd y Twrnai Cyffredinol ei **Farn Gyfreithiol ar yr Offeryn ar y Cyd a Datganiad Unochrog ynghylch y Cytundeb Ymadael.**

Ar 13 Mawrth, cyhoeddodd y Llywodraeth **gyfraddau tollau dros dro ar fewnforion ar ôl ymadael â'r UE**, a chadarnhaodd: "**it will take a temporary approach to avoid new checks and controls on goods at the Northern Ireland land border if the UK leaves the EU without a deal**. The UK's temporary import tariffs will therefore not apply to goods crossing from Ireland into Northern Ireland."

Yn ddiweddarach y diwrnod hwnnw, cafwyd dadl arall ar **ymadawiad y DU â'r Undeb Ewropeaidd**. Y penderfyniad oedd i wrthod ymadael â'r Undeb Ewropeaidd heb Gytundeb Ymadael a Fframwaith ar gyfer Perthynas yn y Dyfodol.

Hefyd ar y diwrnod hwnnw, cyhoeddodd y Pwyllgor Ymadael â'r UE ei adroddiad brys, **Response to the 12 March 2019 vote on the Withdrawal Agreement and Political Declaration: next steps for Parliament**, yn nodi ei argymhelliad i **ymestyn cyfnod Erthygl 50 a chynnal pleidleisiau dangosol i ganfod ffordd ymlaen.**

Yn **y ddadl 14 Mawrth**, penderfynwyd y dylai'r Llywodraeth ofyn am estyniad i gyfnod Erthygl 50. O basio'r bleidlais, roedd yn nodi os oes pleidlais arall ar y Cytundeb Ymadael erbyn dydd Mercher 20 Mawrth, ac os bydd y bleidlais yn pasio, dylai'r Llywodraeth ofyn am estyniad i 30 Mehefin. Yn ôl y cynnig, os na chaiff y bleidlais ei phasio: "it is highly likely that the European Council at its meeting the following day would require a clear purpose for any extension, not least to determine its length, and that any extension beyond 30 June 2019 would require the United Kingdom to hold European Parliament elections in May 2019."

Ar 18 Mawrth, dywedodd Llefarydd Tŷ'r Cyffredin, John Bercow, **na fyddai'n caniatáu pleidlais arall** yn Nhŷ'r Cyffredin at ddiben cadarnhau'r Cytundeb Ymadael a'r Datganiad Gwleidyddol os oedd y cynnig yr un fath neu'n sylweddol debyg i'r cynnig a gyflwynwyd yn flaenorol i Dy'r Cyffredin ar 12 Mawrth.

Ar 20 Mawrth, ysgrifennodd y Prif Weinidog **at Donald Tusk,** Llywydd y Cyngor Ewropeaidd, i ofyn am estyniad o dri mis i gyfnod Erthygl 50 hyd nes 30 Mehefin 2019. Mewn araith ar 20 Mawrth yn ymateb i'r llythyr, **dywedodd Donald Tusk** ei fod yn credu y bydd estyniad byr yn bosibl, ond y bydd yn amodol ar Dŷ'r Cyffredin yn pleidleisio o blaid y cynnig.

Ar 20 Mawrth, gwnaeth y Prif Weinidog **ddatganiad ar Brexit** y tu allan i 10 Downing Street. Yn ei datganiad, dywedodd y Prif Weinidog nad oedd yn barod i ohirio Brexit yn ddim hwyrach na 30 Mehefin, ac nad oedd am i'r DU gymryd rhan yn etholiadau Senedd Ewrop sydd ar ddod.



**Negodiadau ynghylch Ymadawiad y DU â'r Undeb Ewropeaidd:** Adroddiad Monitro Brexit

Ar 21 Mawrth, mewn cyfarfod o'r Cyngor Ewropeaidd, **cytunodd arweinwyr yr UE** i ymestyn Erthygl 50 hyd at 22 Mai 2019, ar yr amod bod Tŷ'r Cyffredin yn cymeradwyo'r Cytundeb Ymadael yn ystod yr wythnos yn dechrau 25 Chwefror. Os na fydd y Cytundeb Ymadael yn cael ei gymeradwyo yn ystod yr wythnos honno, mae'r Cyngor yn cytuno i estyniad tan 12 Ebrill.

# 2. Datblygiadau yn San Steffan a Brwsel

## Llinell amser ar gyfer y datblygiadau allweddol hyd at yr ail 'bleidlais ystyrlon'

Ar 6 Chwefror, mewn **llythyr at Brif Weinidog y DU**, dywedodd arweinydd y Blaid Lafur Jeremy Corbyn y byddai angen i Lywodraeth y DU ymgorffori yn y gyfraith bum newid i'r Datganiad Gwleidyddol i sicrhau cefnogaeth y Blaid Lafur i'r Cytundeb Ymadael. Byddai'r rhain yn cynnwys undeb tollau parhaol a hollgynhwysol ledled y DU, aliniad agos â Marchnad Sengl yr UE ac aliniad cyfredol â hawliau a mesurau diogelu. Roedd **ymateb** y Prif Weinidog i Mr Corbyn ar 10 Chwefror yn pwysleisio ei bod yn bwysig bod gan y DU bolisi masnach annibynnol a gwrthododd y syniad o ddilyn rheolau'r UE yn awtomatig ar hawliau gweithwyr a mesurau diogelu'r amgylchedd. Dywedodd, fodd bynnag, y byddai Llywodraeth y DU yn ymrwymo i ofyn i Senedd y DU a yw'n dymuno dilyn esiampl yr UE pan fydd yn newid ei safonau yn y meysydd hyn.

Roedd y Prif Weinidog wedi dweud yn flaenorol pe na fyddai cytundeb diwygiedig yn cael ei gyflwyno i'r Tŷ erbyn dydd Mercher 13 Chwefror, byddai Llywodraeth y DU yn gwneud datganiad ac, unwaith eto, yn cyflwyno cynnig y gellir ei ddiwygio ar gyfer dadl y diwrnod wedyn. Gwnaeth y Prif Weinidog **y datganiad hwnnw** ar 12 Chwefror a chyflwyno **cynnig** i gynnal dadl yn ei gylch ar 14 Chwefror. Yn ei datganiad, cyfeiriodd y Prif Weinidog at ei sgyrsiau dros yr wythnosau blaenorol gyda Llywydd y Comisiwn Ewropeaidd, a'r trafodaethau y diwrnod cynt rhwng yr Ysgrifennydd Brexit a Mr Barnier lle trafodwyd y syniadau a gyflwynwyd gan y Gweithgor Trefniadau Amgen. Dywedodd Mrs May:

> The talks are at a crucial stage, and we now all need to hold our nerve to get the changes that this House requires and to deliver Brexit on time.

Roedd y cynnig y cafwyd dadl arno ar 14 Chwefror yn dweud bod Tŷ'r Cyffredin yn croesawu datganiad y Prif Weinidog, yn ailadrodd ei gefnogaeth i'r dull o ymadael â'r UE y pleidleisiodd ASau o'i blaid ar 29 Ionawr (yn erbyn 'dim cytundeb' a chyda threfniadau amgen wrth gefn) ac yn nodi bod y trafodaethau â'r UE yn parhau. Yn dilyn y ddadl, gwrthododd ASau gynnig Llywodraeth y DU â 303 yn erbyn a 258 o blaid.





Ar 26 Chwefror, gwnaeth y Prif Weinidog **ddatganiad yn Nhŷ'r Cyffredin**, a chafwyd **dadl** i ddilyn ar 27 Chwefror. Pleidleisiodd Tŷ'r Cyffredin o 502 i 20 i nodi datganiad y Prif Weinidog ynghylch Ymadael â'r Undeb Ewropeaidd ar 26 Chwefror, gan nodi ymhellach fod trafodaethau rhwng y DU a'r UE yn parhau. Roedd y cynnig y cytunwyd arno hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i'r Prif Weinidog ofyn cyn gynted â phosibl am ymrwymiad rhwng y DU a'r UE i fabwysiadu rhan dau o'r Cytundeb Ymadael ar Hawliau Dinasyddion a sicrhau ei fod yn cael ei weithredu cyn i'r DU ymadael â'r Undeb Ewropeaidd, beth bynnag fo canlyniad y trafodaethau ar agweddau eraill ar y Cytundeb Ymadael. Yn benodol, roedd y cynnig yn nodi ymrwymiad y Prif Weinidog i gynnal ail 'bleidlais ystyrlon' erbyn 12 Mawrth.

Ar 11 Mawrth, gwnaeth y Prif Weinidog **ddatganiad** yn Strasbwrg yn dweud bod y DU a'r UE wedi cytuno ar newidiadau cyfreithiol i gryfhau'r cytundeb a wrthododd ASau ym mis Ionawr. Cyhoeddwyd tair dogfen: **offeryn ar y cyd** a oedd yn cytuno na chaiff yr UE fod â bwriad o weithredu'r ateb wrth gefn mewn perthynas â ffin Gogledd Iwerddon am gyfnod amhenodol; **datganiad ar y cyd** ynghylch y datganiad gwleidyddol, sy'n cynnwys ymrwymiadau i wella a hwyluso'r broses o negodi a gwireddu'r berthynas yn y dyfodol; a **datganiad unochrog** yn dweud, os bydd rhaid defnyddio'r ateb wrth gefn ac os yw'r trafodaethau ar y berthynas yn y dyfodol yn dod i stop, ni fyddai unrhyw beth i atal y DU rhag cychwyn mesurau a fyddai'n datgymhwyso'r ateb wrth gefn.

Ar 12 Mawrth, cyhoeddodd y Twrnai Cyffredinol ei **gyngor cyfreithiol** i'r Prif Weinidog ynghylch y dogfennau a gyhoeddwyd y diwrnod blaenorol. Mae'r cyngor yn dod i'r casgliad, er bod yr Offeryn a'r Datganiad Unochrog newydd o bwys cyfreithiol ac yn lleihau'r risg y bydd y DU yn cael ei chadw mewn senario ateb wrth gefn am gyfnod amhenodol yn erbyn ei hewyllys, mae'r risg gyfreithiol o weld hynny yn dal i fodoli. Dywed:

> If both parties deploy a sincere desire to reach agreement and the necessary diligence, flexibility and goodwill implied by the amplified duties set out in the Joint Instrument, it is highly unlikely that a satisfactory subsequent agreement to replace the Protocol will not be concluded...However, the legal risk remains unchanged that if through no such demonstrable failure of either party, but simply because of intractable differences, that situation does arise, the United Kingdom would have, at least while the fundamental circumstances remained the same, no internationally lawful means of exiting the Protocol's arrangements, save by agreement.

## Pleidleisiau Tŷ'r Cyffredin ar 12-14 Mawrth

Ar 12 Mawrth, **pleidleisiodd ASau** ar gytundeb Brexit y Prif Weinidog a'r dogfennau ychwanegol ar ateb wrth gefn Gogledd Iwerddon. Ni wnaeth y Llefarydd ddethol unrhyw welliannau i'r cynnig. Pleidleisiodd ASau i wrthod cytundeb y Prif Weinidog gyda 391 yn erbyn a 242 o blaid.

Yn dilyn y bleidlais, dywedodd y Prif Weinidog:

> I profoundly regret the decision that this House has taken tonight. I continue to believe that by far the best outcome is that the United Kingdom leaves the European Union in an orderly fashion with a deal, and that the deal we have negotiated is the best, and indeed the only, deal available.

Yna, cadarnhaodd y Prif Weinidog y byddai'n cynnal pleidlais rydd y diwrnod canlynol ar b'un a oedd Tŷ'r Cyffredin yn cefnogi ymadael â'r UE heb gytundeb ar 29 Mawrth. Eglurodd pe bai'r Tŷ'n pleidleisio yn erbyn Brexit 'dim cytundeb', y byddai'n cyflwyno cynnig ar 14 Mawrth ynghylch p'un a oedd Senedd y DU yn dymuno gofyn i ymestyn cyfnod Erthygl 50. Yn ôl Prif Weinidog y DU:

> If the House votes for an extension, the Government will seek to agree that extension with the EU and bring forward the necessary legislation to change the exit date, commensurate with that extension.
>
> But let me be clear: voting against leaving without a deal and for an extension does not solve the problems that we face. The EU will want to know what use we mean to make of such an extension, and this House will have to answer that question. Does it wish to revoke article 50? Does it want to hold a second referendum? Or does it want to leave with a deal, but not this deal? These are unenviable choices, but thanks to the decision that the House has made this evening, they are choices that must now be faced.

Dywedodd y Prif Weinidog hefyd y byddai'n cyhoeddi gwybodaeth am bolisïau hanfodol y byddai angen eu gweithredu pe byddem yn ymadael â'r UE heb gytundeb. Yn unol â hynny, cyhoeddodd Llywodraeth y DU **drefniadau 'dros dro'** i osgoi ffin galed ar ynys Iwerddon pe ceir Brexit heb gytundeb. Dywed Llywodraeth y DU na fydd yn cyflwyno unrhyw wiriadau na mesurau rheoli newydd ar nwyddau ar ffin Iwerddon. Cyhoeddodd hefyd **amserlen tariffau dros dro** ar gyfer mewnforion i'r DU, a fyddai'n dod i rym am 11pm ar 29 Mawrth pe ceir Brexit heb gytundeb, ynghyd â **canllawiau cysylltiedig** i fusnesau. **Byddai'r tariffau arfaethedig** yn gymwys am gyfnod o 12 mis tra bo ymgynghoriad ac adolygiad llawn yn cael eu cynnal i lywio dull parhaol o ran tariffau.



**Negodiadau ynghylch Ymadawiad y DU â'r Undeb Ewropeaidd:** Adroddiad Monitro Brexit

Ar 13 Mawrth, mewn ymateb i'r bleidlais yn Nhŷ'r Cyffredin ar y Cytundeb Ymadael, gwnaeth Michel Barnier **ddatganiad** yng nghyfarfod llawn Senedd Ewrop yn Strasbwrg:

> Following these votes, it will be for the British government to tell us – I hope positively – how it wishes to proceed, to finally bring together a constructive majority for a proposal. It is the UK's responsibility to tell us what it wants for our future relationship, what its choice is, what its clear line is.
>
> We must now ask that question before asking about any possible extension. Extending the negotiation: for what reason? The Article 50 negotiation is now over. We have the treaty. It is here.
>
> We are in a very serious moment because the risk of no deal has never been higher, including an accidental no deal. I recommend that nobody underestimates this risk or its consequences.

Ar 13 Mawrth, pleidleisiodd Aelodau Seneddol o blaid cynnig i beidio â gadael yr UE ar Fawrth 29 heb gytundeb. Roedd y cynnig a gyflwynwyd gan Lywodraeth y DU yn cydnabod mai 'dim cytundeb' fyddai'r sefyllfa gyfreithiol ddiofyn pe bai Senedd y DU yn dewis peidio â chymeradwyo'r cytundeb y cytunwyd arno rhwng y DU a'r UE.

Dewisodd y Llefarydd ddau welliant i'r cynnig 'dim cytundeb'. Roedd y gwelliant cyntaf, sef gwelliant (a) a gyflwynwyd gan Caroline Spellman AS, yn newid y cynnig i wrthod y DU yn ymadael â'r UE mewn unrhyw amgylchiadau. Pleidleisiodd yr Aelodau Seneddol o blaid y gwelliant hwn o drwch blewyn, â 312 o blaid a 308 yn erbyn. Cafodd yr ail welliant, sef gwelliant (f), yn enw Damian Green AS, a oedd yn galw am estyniad i ganiatáu rhagor o amser ar gyfer ymadawiad 'dim cytundeb' wedi'i reoli, ei drechu gyda 164 o blaid a 374 yn erbyn.

Cafwyd pleidlais ar y cynnig fel y'i diwygiwyd, ac fe bleidleisiwyd o blaid y cynnig gyda 321 o blaid a 278 yn erbyn. Yn dilyn hyn, **dywedodd Prif Weinidog y DU:**

> The legal default in UK and EU law remains that the UK will leave the EU without a deal unless something else is agreed. The onus is now on every one of us in this House to find out what that is. The options before us are the same as they always have been: we could leave with the deal that this Government have negotiated over the past two years; we could leave with the deal that we have negotiated but subject to a second referendum, but that would risk no Brexit at all—[Interruption]—damaging the fragile trust between the British public and the Members of this House; we could seek to negotiate a different deal, but the EU has been clear that the deal on the table is indeed the only deal available.

Roedd y Prif Weinidog wedi ymrwymo'n flaenorol i gyflwyno cynnig ynghylch p'un a oedd ASau yn cefnogi gofyn i gael ymestyn cyfnod Erthygl 50 pe baent yn pleidleisio yn erbyn ymadael heb gytundeb. Felly, ar ôl y bleidlais, cadarnhaodd y Prif Weinidog y byddai dadl a phleidlais ar estyniad posibl yn cael eu cynnal y diwrnod canlynol. **Dywedodd Prif Weinidog y DU**:

> If the House finds a way in the coming days to support a deal, it would allow the Government to seek a short, limited technical extension to article 50 to provide time to pass the necessary legislation and to ratify the agreement we have reached with the EU.
>
> Let me be clear: such a short technical extension is likely to be on offer only if we have a deal in place. Therefore, the House must understand and accept that if it is not willing to support a deal in the coming days and as it is not willing to support leaving without a deal on 29 March, it is suggesting that there will need to be a much longer extension to article 50. Such an extension would undoubtedly require the United Kingdom to hold European Parliament elections in May 2019. I do not think that that would be the right outcome, but the House needs to face up to the consequences of the decisions that it has taken.

Ar 14 Mawrth **trydarodd Llywydd y Cyngor Donald Tusk gan ddweud** y byddai'n apelio ar yr UE27 i fod yn agored i estyniad hir os yw'r DU yn ei chael yn angenrheidiol ailystyried ei strategaeth Brexit a chael consensws i'r strategaeth honno.

Ar 14 Mawrth, pleidleisiodd ASau a ddylid cyfarwyddo'r Prif Weinidog i geisio ymestyn cyfnod negodi Erthygl 50. Roedd cynnig y Prif Weinidog yn gofyn i Dŷ'r Cyffredin gytuno:

- y bydd y Llywodraeth yn gofyn i'r UE gytuno i ymestyn cyfnod Erthygl 50; ac
- os bydd y Tŷ yn pleidleisio o blaid cytundeb Brexit y Prif Weinidog erbyn 20 Mawrth, yna bydd y Llywodraeth yn ceisio cytuno ar estyniad tan 30 Mehefin 2019 er mwyn gallu pasio deddfwriaeth angenrheidiol ynghylch ymadael â'r UE.

Roedd y cynnig hefyd yn gofyn i Aelodau Seneddol gytuno i nodi pe baent yn dewis peidio â phasio'r cytundeb erbyn 20 Mawrth, yna mae'n 'debygol iawn' y byddai Cyngor Ewrop angen clywed pwrpas clir ar gyfer unrhyw estyniad yn ei gyfarfod ar 21 Mawrth, a bod unrhyw estyniad y tu hwnt i 30 Mehefin 2019 yn golygu y byddai angen i'r DU gynnal etholiadau ar gyfer Senedd Ewrop ym mis Mai 2019.



**Negodiadau ynghylch Ymadawiad y DU â'r Undeb Ewropeaidd:** Adroddiad Monitro Brexit

Cafodd gwelliannau i gynnig y llywodraeth eu dethol gan y Llefarydd, gan gynnwys gwelliant a gyflwynwyd gan Sarah Wollaston AS ar gael ail refferendwm. Pleidleisiodd ASau yn erbyn y gwelliant hwn gyda 85 o blaid a 334 yn erbyn. Fodd bynnag, roedd Llywodraeth y DU yn agos at golli ar ddau welliant. Pleidleisiodd ASau â 302 o blaid a 318 yn erbyn gwelliant gan Aelodau ar feinciau blaen y Blaid Lafur yn gofyn i ymestyn cyfnod Erthygl 50 fel cyfle i ddod o hyd i ffordd ymlaen sy'n gallu ennill mwyafrif. Pleidleisiwyd hefyd â 312 o blaid a 314 yn erbyn gwelliant Hilary Benn, Cadeirydd y Pwyllgor Brexit, a fyddai wedi derbyn estyniad tan 30 Mehefin ond fyddai wedi gofyn am amser yn y Senedd i'r meinciau cefn gyflwyno cynigion ynghylch y ffordd ymlaen.

**Pleidleisiodd ASau** â 412 o blaid a 202 yn erbyn y cynnig terfynol heb ei ddiwygio yn cytuno y dylai Llywodraeth y DU ofyn i ymestyn cyfnod Erthygl 50.

## Datblygiadau ers 14 Mawrth

Ar 18 Mawrth, dywedodd Llefarydd Tŷ'r Cyffredin, John Bercow, **na fyddai'n caniatáu pleidlais arall** yn Nhŷ'r Cyffredin at ddiben cadarnhau'r Cytundeb Ymadael a'r Datganiad Gwleidyddol os oedd y cynnig yr un fath neu'n sylweddol debyg i'r cynnig a gyflwynwyd yn flaenorol i Dy'r Cyffredin ar 12 Mawrth.

Ar 20 Mawrth, ysgrifennodd y Prif Weinidog **at Donald Tusk**, Llywydd y Cyngor Ewropeaidd, i ofyn am estyniad o dri mis i gyfnod Erthygl 50 hyd nes 30 Mehefin 2019. Yn ei llythyr, dywedodd y Prif Weinidog ei bod yn gofyn am yr estyniad er mwyn ceisio cael cymeradwyaeth i'r Cytundeb Ymadael a'r Datganiad Gwleidyddol, ac wedi hynny basio'r Bil Cytundeb Ymadael i roi ymrwymiadau'r DU o dan y Cytundeb Ymadael mewn cyfraith ddomestig. Gofynnodd y Prif Weinidog hefyd i'r Cyngor Ewropeaidd gymeradwyo'r dogfennau atodol a gyhoeddwyd ar 11 Mawrth, er mwyn iddi allu bodloni gofynion dyfarniad Llefarydd Tŷ'r Cyffredin ar 18 Mawrth.

Mewn araith ar 20 Mawrth yn ymateb i'r llythyr, **dywedodd Donald Tusk** ei fod yn credu y bydd estyniad byr yn bosibl, ond y bydd yn amodol ar Dŷ'r Cyffredin yn pleidleisio o blaid y cynnig. Dywedodd hefyd fod estyniad byr hefyd yn bosibl, gan fod rhai rhinweddau i'r cais i ymestyn Erthygl 50 hyd at 30 Mehefin ond y codir rhai cwestiynau gwleidyddol a chyfreithiol yn sgil hynny hefyd. Dywedodd Donald Tusk hefyd y byddai cymeradwyaeth y Cyngor Ewropeaidd i'r dogfennau atodol yn bosibl, ac na fyddai hynny'n esgor ar unrhyw risgiau.

Ar 20 Mawrth, gwnaeth y Prif Weinidog **ddatganiad ar Brexit** y tu allan i 10 Downing Street. Yn ei datganiad, dywedodd y Prif Weinidog nad oedd yn barod i ohirio Brexit yn ddim hwyrach na 30 Mehefin, ac nad oedd am i'r DU gymryd rhan yn etholiadau Senedd Ewrop sydd ar ddod.

Ar 21 Mawrth, mewn cyfarfod o'r Cyngor Ewropeaidd, fe wnaeth arweinwyr yr UE drafod ceisiadau'r Prif Weinidog. **Mewn datganiad** ar ôl y cyfarfod, dywedodd Donald Tusk fod y Cyngor yn cymeradwyo'r Offeryn a'r Datganiad ar y Cyd y cytunwyd arnynt yn Strasbwrg ar 11 Mawrth. Dywedodd hefyd fod y Cyngor yn cytuno i ymestyn Erthygl 50 hyd at 22 Mai 2019, ar yr amod bod Tŷ'r Cyffredin yn cymeradwyo'r Cytundeb Ymadael yn ystod yr wythnos yn dechrau 25 Chwefror. Os na chaiff y Cytundeb Ymadael ei gymeradwyo yn ystod yr wythnos honno, dywedodd fod y Cyngor Ewropeaidd yn cytuno i estyniad tan 12 Ebrill, a'i fod yn disgwyl i'r DU ddangos ffordd ymlaen cyn y dyddiad hwn. Pwysleisiodd na ellir ailagor y Cytundeb Ymadael y cytunwyd arno ym mis Tachwedd 2018. Wrth esbonio arwyddocâd 12 Ebrill, dywedodd:

> What this means in practice is that, until that date, all options will remain open, and the cliff-edge date will be delayed. The UK Government will still have a choice of a deal, no-deal, a long extension or revoking Article 50.

Yn ddiweddarach y noson honno, gwnaeth y Prif Weinidog **ddatganiad** yn croesawu'r ffaith bod y Cyngor wedi cymeradwyo cytundeb Strasbwrg, yn ogystal ag ymestyn Erthygl 50. Dywedodd y byddai unrhyw estyniad pellach yn golygu y byddai'n rhaid i'r DU gymryd rhan yn etholiadau Senedd Ewrop, gan ychwanegu nad oedd hi'n credu y dylid gofyn i bobl yn y DU gymryd rhan yn yr etholiadau hyn dair blynedd ar ôl pleidleisio i adael yr UE. Dywedodd:

> What the decision today underlines is the importance of the House of Commons passing a Brexit deal next week so that we can bring an end to the uncertainty and leave in a smooth and orderly manner.

## Y camau nesaf

Disgwylir cynnal etholiadau Senedd Ewrop rhwng 23 a 26 Mai 2019. Ar 11 Mawrth, ysgrifennodd Jean-Claude Juncker, Llywydd y Comisiwn Ewropeaidd, lythyr at Lywydd y Cyngor Ewropeaidd, Donald Tusk, yn dweud:

> the United Kingdom's withdrawal should be complete before the European Parliament elections… If the United Kingdom has not left the European Union by then, it will be legally required to hold these elections, in line with the rights and obligations of all Member States as set out in the Treaties.



**Negodiadau ynghylch Ymadawiad y DU â'r Undeb Ewropeaidd:** Adroddiad Monitro Brexit

Ar 13 Mawrth, cyhoeddodd Pwyllgor Dethol Tŷ'r Cyffredin ar Ymadael â'r UE (y Pwyllgor Brexit) y ddogfen **Response to the 12 March vote on the Withdrawal Agreement and Political Declaration: next steps for Parliament.** Roedd hyn yn dilyn adroddiadau blaenorol a gyhoeddwyd ar **28 Ionawr a 16 Ionawr.**

O ran hyd yr estyniad i negodiadau Erthygl 50, mae'r Pwyllgor Brexit yn nodi yn ei ymateb ei fod wedi clywed yn ystod trafodaethau ym Mrwsel na fyddai'n broblem pe na bai'r DU yn cynnal etholiadau Ewropeaidd cyn belled â bod Brexit yn digwydd cyn diwedd Mehefin, gan na fyddai sesiwn gyntaf Senedd Ewrop yn cael ei chynnal tan 2 Gorffennaf. Mae'n argymell felly y dylai Llywodraeth y DU egluro ar unwaith beth yw ei dealltwriaeth o'r sefyllfa. Mae'r Pwyllgor Brexit yn credu:

> it may be necessary to request an extension beyond the end of May and, unless a protocol can quickly be agreed in discussions with the EU which removes the obligation on the UK to participate in the European Parliament elections, the UK should be prepared for the possibility of having to hold these elections at the end of May.

O ran yr hyn a ddylai ddigwydd nesaf, mae'r Pwyllgor Brexit yn ailadrodd ei argymhelliad a wnaed ym mis Ionawr 2019 y dylai Llywodraeth y DU gynnal cyfres o bleidleisiau dangosol ar wahanol opsiynau ar gyfer sut i fwrw ymlaen â phroses Brexit:

> We reiterate our recommendation that the House of Commons must be given an opportunity to identify what new approach might secure a majority in the House of Commons. Making provision, therefore, for the House to hold a series of indicative votes should now happen without delay so as to begin the process by which a clear plan can be identified.

## Deddfwriaeth Brexit

Dechreuodd **y Bil Masnach** ei Gyfnod Adrodd yn Nhŷ'r Arglwyddi ar 6 Mawrth, a gwnaed dau welliant i'r Bil. Mae'r cyntaf yn mewnosod cymal newydd yn y Bil sy'n rhoi mwy o bŵer i Senedd y DU dros gynnwys y cytundebau masnach rydd ryngwladol a gwmpesir gan y Bil, ac mae'n ei gwneud yn ofynnol ymgynghori â'r gweinyddiaethau datganoledig. Mae'r ail welliant yn gorchymyn i Lywodraeth y DU gymryd yr holl gamau angenrheidiol i weithredu cytundeb masnach ryngwladol sy'n galluogi'r DU i fod yn rhan o undeb tollau gyda'r Undeb Ewropeaidd ar ôl ymadael.

Cynhaliwyd **ail ddiwrnod y Cyfnod Adrodd** ar 13 Mawrth. Pasiwyd tri gwelliant nad oeddent gan y Llywodraeth. Roedd y cyntaf yn peidio â chaniatáu i gytundeb masnach rhwng y DU a'r UE gael ei gymeradwyo oni bai: ei fod yn gydnaws â Chytundeb Gwener y Groglith; nad yw'n effeithio ar fasnach rhwng Iwerddon a Gogledd Iwerddon; a bod trefniadau tollau'n cael eu gwneud. Roedd yr ail welliant yn gosod amcan i'r Ysgrifennydd Gwladol perthnasol sicrhau fframwaith symudedd mewn cytundeb masnach gyda'r UE sy'n darparu hawliau cyfatebol i fyw, gweithio ac astudio at ddibenion masnach mewn nwyddau a gwasanaethau. Mae'r trydydd gwelliant yn nodi na all y darpariaethau yn rhannau 1-3 o'r Bil ddod i rym heblaw bod cytundeb a fframwaith ymadael ar gyfer perthynas yn y dyfodol â'r UE sydd wedi'i gymeradwyo gan Dŷ'r Cyffredin.

Cynhaliwyd **Trydydd Darlleniad** y Bil yn Nhŷ'r Arglwyddi ar 20 Mawrth. Cytunwyd ar bedwar gwelliant, tri gan Lywodraeth y DU ac un gan yr wrthblaid. Cytunwyd ar y gwelliannau oll heb bleidlais. Mae'r Bil bellach wedi dychwelyd i Dŷ'r Cyffredin i **ystyried gwelliannau.**

Mae gwelliant 1 yn ei gwneud yn ofynnol i reoliadau weithredu cytundebau parhad masnach i gynnal mesurau diogelu statudol y DU mewn perthynas â nifer o feysydd.

Mae gwelliant 2 yn nodi'r meysydd lle mae angen cynnal mesurau diogelu statudol y DU - diogelu bywyd ac iechyd anifeiliaid, bodau dynol a phlanhigion; lles anifeiliaid; diogelu'r amgylchedd; a chyflogaeth a llafur. Mae hefyd yn nodi bod mesurau diogelu statudol yn cael eu diffinio fel deddfwriaeth sylfaenol, is-ddeddfwriaeth, neu gyfraith yr UE a ddargedwir.

Mae gwelliant 5 yn ychwanegu 'sifil' at y testun, sy'n golygu y caiff rheoliadau o dan is-adran 2(1) wneud darpariaeth ar gyfer cosbau sifil am fethu â chydymffurfio â'r rheoliadau.

Mae gwelliant 7 yn disodli cymal 11 o'r Bil gyda gofyniad newydd y dylai Llywodraeth y DU geisio sicrhau cytundeb masnach ryngwladol gyda'r UE sy'n galluogi'r DU i gymryd rhan lawn ar ôl y diwrnod ymadael yn yr Asiantaeth Meddyginiaethau Ewropeaidd; yr Asiantaeth Cemegolion Ewropeaidd; Asiantaeth Diogelwch Hedfan Ewrop; yr Asiantaeth Diogelwch Morwrol Ewropeaidd; Rhwydwaith Ewropeaidd Gweithredwyr Systemau Trosglwyddo Trydan; a Rhwydwaith Ewropeaidd Gweithredwyr Systemau Trosglwyddo Nwy.



**Negodiadau ynghylch Ymadawiad y DU â'r Undeb Ewropeaidd:** Adroddiad Monitro Brexit

Mae Llywodraeth y DU wedi dweud bod angen cydsyniad deddfwriaethol gan y deddfwrfeydd datganoledig mewn perthynas â'r Bil, gan i rannau ohono wneud darpariaeth mewn meysydd sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad. Barn Llywodraeth Cymru yw bod Rhan 1 o'r Bil yn gofyn am gydsyniad deddfwriaethol, ac atodlenni 1 i 3 yn yr un modd. Er mai safbwynt cychwynnol Llywodraeth Cymru oedd na allai argymell bod y Cynulliad yn rhoi cydsyniad deddfwriaethol i'r Bil, mae wedi sicrhau newidiadau ac ymrwymiadau anneddfwriaethol sy'n golygu ei bod wedi cyhoeddi memorandwm cydsyniad deddfwriaethol atodol yn argymell bod y Cynulliad yn rhoi cydsyniad deddfwriaethol i'r Bil. Yn dilyn adroddiadau ar y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol atodol gan y **Pwyllgor Materion Allanol** a'r **Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol**, cymeradwyodd y Cynulliad gynnig cydsyniad deddfwriaethol mewn perthynas â'r Bil ar 12 Mawrth. Mae'n debygol y bydd yn ofynnol i'r Cynulliad gymeradwyo Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol pellach yn seiliedig ar y gwelliannau a basiwyd ers cymeradwyo'r un blaenorol.

Dechreuodd **y Bil Gofal Iechyd (Trefniadau Ardal Economaidd Ewrop a'r Swistir)** ar ei Ail Ddarlleniad yn Nhŷ'r Arglwyddi ar 5 Chwefror. Trafododd yr Aelodau ystod o faterion a godwyd gan y Bil, gan gynnwys cytundebau gofal iechyd dwyochrog y DU gydag aelod-wladwriaethau'r UE a gwledydd eraill ledled y byd, mesurau i ddiogelu dinasyddion Prydain pe bai Brexit heb gytundeb, diogelwch data a thaliadau llywodraeth ar gyfer gofal iechyd a ddarperir y tu allan i'r DU.

Dechreuodd y Cyfnod Pwyllgor ar 19 Chwefror. Trafododd aelodau'r Pwyllgor ddyletswydd y llywodraeth i ymgynghori â gweinyddiaethau datganoledig yr Alban, Cymru a Gogledd Iwerddon, a sicrhau nad yw'r rheoliadau a wneir o dan y Bil yn effeithio'n negyddol ar ddeddfwriaeth a basiwyd yn y gweinyddiaethau hynny nac ar unrhyw ddeddfwriaeth yr UE a ddargedwir yn dilyn Brexit.

Cynhaliwyd Cyfnod Adrodd y Bil yn Nhŷ'r Arglwyddi ar 12 Mawrth. Trafododd yr Aelodau'r gofynion ar gyfer ymgynghori ag awdurdodau datganoledig ac adroddiadau'r Llywodraeth ar daliadau gofal iechyd a wneir o dan y Bil. Gwnaed dau welliant i'r Bil hefyd. Roedd y gwelliant cyntaf yn ymwneud â chymal agoriadol y Bil, sy'n caniatáu i'r Llywodraeth wneud trefniadau i dalu ar gyfer gofal iechyd a ddarperir y tu allan i'r Deyrnas Unedig. Mae'n dileu'r geiriau 'outside of the United Kingdom' o'r cymal ac yn diffinio'r ardal benodedig fel 'in a European Economic Area country or Switzerland'. Roedd yr ail welliant mewn perthynas ag adran o'r Bil a oedd yn rhestru'r pwerau posibl y gellid eu dirprwyo i'r Ysgrifennydd Gwladol o dan y gyfraith newydd. Mae'r gwelliant yn dileu'r geiriau 'for example' cyn y rhestr o bwerau, ar y sail bod yr ymadrodd yn cynyddu'r cyfle i ehangu'r pwerau hynny yn ddiweddarach.

Mae teitl y Bil wedi'i newid o'r 'Bil Gofal Iechyd (Trefniadau Rhyngwladol)' i 'Bil Gofal Iechyd (Trefniadau Ardal Economaidd Ewrop a'r Swistir)'.

Cynhaliwyd **Trydydd Darlleniad** y Bil yn Nhŷ'r Arglwyddi ar 19 Mawrth. Pasiwyd nifer o welliannau mân, ac mae'r Bil wedi dychwelyd i Dŷ'r Cyffredin i ystyried y gwelliannau.

Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi **memorandwm cydsyniad deddfwriaethol atodol** ar gyfer y Bil, a chytunwyd ar gynnig i roi cydsyniad deddfwriaethol i'r Bil yn y Cyfarfod Llawn ar 12 Mawrth. Fodd bynnag, gan y gwnaed newidiadau i'r Bil yn Nhŷ'r Arglwyddi ar yr un diwrnod, mae'n debygol y bydd memorandwm arall yn cael ei gyhoeddi maes o law.

Mae'r **Bil Pysgodfeydd** wedi cwblhau ei Gyfnod Pwyllgor yn Nhŷ'r Cyffredin. Mae'r Bil yn darparu nifer o bwerau a fydd yn galluogi'r DU a Gweinidogion Cymru i gyflwyno is-ddeddfwriaeth ac mae'n cynnwys darpariaethau sy'n berthnasol i Gymru ar gais Llywodraeth Cymru. Cafodd **Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol atodol** mewn perthynas â'r Bil ei osod ar 10 Ionawr. Dywed Ysgrifennydd y Cabinet ei bod yn credu ei bod yn briodol ymdrin â'r darpariaethau hyn mewn Bil gan y DU i sicrhau bod dull cyson ar draws y DU wrth greu'r fframwaith pysgodfeydd. Er hynny, dywedodd y bydd Llywodraeth Cymru yn cyflwyno Bil Pysgodfeydd Cymru yn y dyfodol. Mae'r pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig wedi cymryd tystiolaeth ar y cynigion cydsyniad deddfwriaethol gan randdeiliaid a chan Weinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig, ac mae wedi **cyhoeddi adroddiad** yn dilyn hynny. Mae'r Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol hefyd wedi ystyried y Bil a **cyhoeddi adroddiad**. Nid oes dyddiad wedi ei bennu eto ar gyfer y Cyfnod Adrodd yn Nhŷ'r Cyffredin.

Cafodd **y Bil Mewnfudo a Chyd-drefnu Nawdd Cymdeithasol (Ymadael â'r UE)** ei ystyried gan y Pwyllgor Biliau Cyhoeddus, sydd wedi adrodd ar y Bil heb welliannau i'r Tŷ. Mae disgwyl i'r Bil symud ymlaen i Gyfnod Adrodd a Thrydydd Darlleniad ar ddyddiad sydd eto i'w bennu. Diben y Bil yw i roi terfyn ar symudiad rhydd a gwarchod statws dinasyddion Iwerddon yng nghyfraith fewnfudo'r DU. Ym marn Llywodraeth y DU, nid yw'r materion mewnfudo y mae darpariaethau'r Bil yn ymwneud â hwy o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad.

## Is-ddeddfwriaeth

O ran is-ddeddfwriaeth, mae 491 o Offerynnau Statudol sy'n gysylltiedig â Brexit wedi'u gosod yn Senedd y DU ers i Ddeddf yr UE (Ymadael) gael Cydsyniad Brenhinol ar 26 Mehefin 2018, ac mae 108 Offeryn Statudol wedi cwblhau eu hynt drwy'r Senedd.





Mae Llywodraeth Cymru wedi nodi y bydd hyd at 150 o Offerynnau Statudol Brexit a wneir gan Lywodraeth y DU yn cael eu gwneud cyn y diwrnod ymadael mewn meysydd sydd wedi'u datganoli i Gymru. Mae tua 124 wedi'u cyflwyno hyd yma. Mae 50 arall i'w gwneud gan Weinidogion Cymru ac mae'r Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol wedi ystyried 38 o'r rhain hyd yn hyn. Mae 27 o'r rhain wedi bod yn destun y weithdrefn negyddol, ac 11 yn destun y weithdrefn gadarnhaol a heb gael eu cymeradwyo gan y Cynulliad hyd yma.

Ar 6 Chwefror 2019, cyhoeddodd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol **adroddiad cynnydd** ar y gwaith o graffu ar reoliadau Brexit, ac anfonwyd **llythyr cysylltiedig** at Brif Weinidog Cymru ynghylch craffu ar ddeddfwriaeth Brexit. Un o brif ganfyddiadau'r adroddiad oedd nad yw Llywodraeth Cymru wedi cael cydbwysedd cywir rhwng caniatáu i Weinidogion y DU weithredu ar ran Gweinidogion Cymru a gwneud ei deddfwriaeth ei hun. Roedd y Pwyllgor yn pryderu am y diffyg manylder yn natganiadau ysgrifenedig yr Offerynnau Statudol, ac mae'n credu y dylai'r Llywodraeth gyflwyno cynigion sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r Cynulliad gael cydsynio i reoliadau sy'n destun Memoranda Cydsyniad Offeryn Statudol. Mynegodd y Pwyllgor bryderon hefyd am gapasiti a blaenoriaethau Llywodraeth Cymru wrth ymdrin â faint o ddeddfwriaeth sydd ei hangen i gywiro llyfr statud Cymru.

**Ymateb y Prif Weinidog i'r Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol** ar 11 Mawrth. Dywedodd nad oedd adroddiad y Pwyllgor yn cyd-fynd â'i brofiad ef o ddeddfu ar gyfer Brexit, ac nad oedd yn derbyn bod y Cynulliad cael ei wthio i'r neilltuo na'i fod wedi'i anwybyddu. Mewn perthynas â phwynt y Pwyllgor ynghylch caniatáu i Weinidogion y DU weithredu ar ran Cymru, dywed Prif Weinidog Cymru mai'r hyn sydd wedi bod yn digwydd yw 'cydweithrediad â Llywodraeth y DU er mwyn darparu llyfr statud ymarferol', gan ychwanegu nad yw Llywodraeth Cymru erioed wedi gorfod gwneud dim ar y raddfa hon ers dechrau datganoli.

Oran y datganiadau ysgrifenedig o dan Reol Sefydlog 30C, gwnaeth y Prif Weinidog gydnabod bod y Pwyllgor wedi bod yn ddyfal wrth ysgrifennu at Lywodraeth Cymru i godi pryderon ynghylch datganiadau ysgrifenedig penodol a bod y templedi a'r canllawiau a roddwyd i'r swyddogion sy'n paratoi'r datganiadau hynny wedi'u diwygio i wella eu hansawdd.
Wrth drafod cynigion ar Femoranda Cydsyniad Offerynnau Statudol, a'r hyn a ffafriai'r Pwyllgor sef i Weinidogion Cymru gyflwyno cynigion ar gyfer pob Memorandwm Cydsyniad Offeryn Statudol, dywedodd y Prif Weinidog fod y Rheolau Sefydlog yn ei gwneud yn glir mai dewis Gweinidogion neu Aelodau yw cyflwyno cynnig.

Mewn llythyr at Gadeirydd y Pwyllgor Materion Allanol ar 11 Mawrth, rhoddodd y Gweinidog Brexit, Jeremy Miles, y wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd mewn perthynas ag Offerynnau Statudol Brexit. Yn y llythyr, dywedodd fod yr holl Offerynnau Statudol negyddol sydd eu hangen yn cael eu gosod mewn pryd i ddod i rym erbyn 29 Mawrth. Yn ogystal, dywedodd fod y Llywodraeth yn rhagweld hyd at wyth Offeryn Statudol y bwriedir iddynt ddod i rym ar ôl 29 Mawrth, gan ychwanegu y byddai'r rhan fwyaf o'r rhain yn gwneud diwygiadau i gyfraith Cymru o ganlyniad i ddeddfwriaeth y DU nad yw wedi'i gwneud eto.





# 3. Datblygiadau yng Nghymru

Yn ystod y Cyfarfod Llawn ar 5 Chwefror, mewn ymateb i gwestiwn gan Lynne Neagle AC ar oblygiadau Brexit heb gytundeb i'r sector modurol yng Nghymru, dywedodd y Prif Weinidog, Mark Drakeford, y byddai gadael yr Undeb Ewropeaidd heb gytundeb yn 'drychinebus' i'r diwydiant. Aeth ymlaen i ddweud y dylai Llywodraeth y DU gael gwared ar bosibilrwydd o'r fath a gofyn ar unwaith am estyniad i amserlen erthygl 50.

Ar 7 Chwefror, cyhoeddodd Mark Drakeford ddatganiad ar y cyd â Phrif Weinidog yr Alban ar ôl iddynt fod yng nghyfarfod cyntaf y Pwyllgor Masnach ac Ymadael â'r UE (Parodrwydd). Roedd y datganiad yn nodi:

> [...] all the evidence we have seen to date suggests that the UK is simply not prepared for a 'no deal' Brexit in less than 2 months' time. Our firm view is that such an outcome to the Brexit negotiations would be a catastrophe which would cause significant short-term disruption to the lives of ordinary citizens as well as to businesses and long-term harm to our economy.

Cyfeiriodd y Prif Weinidog at y swyddi a gollwyd yn Shaeffler yn Llanelli a'r buddsoddiad a ganslwyd yn Nissan yn Sunderland, gan awgrymu mai rhagolwg yw'r rhain o'r hyn sydd i ddod. Oherwydd yr ansicrwydd a achoswyd gan y posibilrwydd o senario 'dim cytundeb', ailddatganodd y Prif Weinidog:

> The point has been reached where there is now no time to waste. We therefore renew our call for the Prime Minister to make clear that she and her government will ensure 'no deal' is taken off the table. This should include putting forward secondary legislation now to remove 29 March 2019 as exit day from the EU (Withdrawal) Act.

Ar 11 Chwefror, atebodd Prif Weinidog Cymru lythyr gan y Llywydd ynghylch craffu ar ddeddfwriaeth sy'n ymwneud â Brexit. Yn ei ateb, sicrhaodd y Prif Weinidog:

> Mae dull gweithredu Llywodraeth Cymru'n adlewyrchu'r ffaith bod gwir angen ymateb i'r amgylchiadau eithriadol ynghylch Brexit, yn hytrach nag unrhyw ymdrech i lesteirio neu gyfyngu ar rôl y Cynulliad fel deddfwrfa. [...] Bydd Llywodraeth Cymru, i'r graddau y bo modd yn yr amserlen sydd gennym, yn ceisio hwyluso gwaith craffu gan y Cynulliad trwy ymgysylltu amserol ac ymatebol.

Yn y Cyfarfod Llawn ar 12 Chwefror, mewn ymateb i bryder a fynegwyd gan Llyr Gruffydd AC ynghylch gor-ddibyniaeth ar San Steffan i ddeddfu ar ein rhan, ailaddatganodd y Prif Weinidog bolisi Llywodraeth Cymru, gan ddweud:

> [...] the responsibility to legislate is in the hands of the Assembly. We want to see the Assembly dealing with those particular responsibilities unless there is a specific reason that we can't do it in that way. Of course, Brexit does create the context where that specific reason arises.
>
> What we're doing is the same as they are doing in Scotland. Where the House of Commons can do things that are entirely technical and that don't change our policy at all, because there is insufficient time for us to redo things that they do. [...] But, if policies change, then we bring them to the floor of the Assembly, and that's what we've done.

Yn ystod y Cyfarfod Llawn ar 13 Chwefror, gofynnwyd cwestiynau i'r Gweinidog Brexit, Jeremy Miles AC. I grynhoi, wrth ymateb i wahanol gwestiynau, gwnaeth y Gweinidog Brexit nifer o sylwadau allweddol gan gynnwys:

- O ran y camau y bydd Llywodraeth Cymru yn eu cymryd mewn senario 'dim cytundeb' i gydweithio â CThEM i sicrhau nad yw porthladd Caergybi yn dod i stop, dywedodd y Gweinidog Brexit fod trafodaethau'n cael eu cynnal gyda Llywodraeth y DU a CThEM, a dywedodd fod y cydweithio â Llywodraeth y DU yn y maes hwn wedi gwella'n ddiweddar.
- Mae Llywodraeth Cymru wedi galw am gyd-bwyllgor gweinidogion ar fasnach ryngwladol, i sefydlu system ffurfiol i gytuno ar swyddi negodi a datrys y mathau o densiynau a fydd, yn anochel, yn codi yn y maes hwn. Yn ogystal, dywedodd y Gweinidog Brexit fod Gweinidogion Llywodraeth y DU wedi nodi yn ddiweddar yn Nhŷ'r Arglwyddi eu bwriad i greu fforwm o'r union fath.
- Mae'r Cyngor Prydeinig-Gwyddelig yn fforwm cwbl hanfodol i gryfhau perthnasoedd ledled y DU yng nghyd-destun Brexit ac o ran perthnasoedd yn fwy cyffredinol yn y dyfodol. Mae gan Lywodraeth Cymru femoranda dealltwriaeth neu gynlluniau gweithredu eisoes ar waith gyda Llydaw a Gwlad y Basg, ac maent ar fin cychwyn cyfres debyg o drafodaethau gyda'r Galisiaid. At hynny, mae Llywodraeth Cymru wedi datblygu, yn enwedig gyda Quebec, er enghraifft, femorandwm cyd-ddealltwriaeth ynghylch y sector awyrofod.
- Mae concordat wrthi'n cael ei ddatblygu a fydd yn rhoi manylion penodol ynghylch sut y bydd yr Adran Masnach Ryngwladol a'r gweinyddiaethau datganoledig yn cydweithio ar gyfer cytundebau masnach yn y DU gyda gwledydd eraill ar ôl ymadael â'r UE.





Ar 21 Chwefror, cyhoeddodd Grŵp Cynghori ar Ewrop Llywodraeth Cymru **gofnodion** ar gyfer ei gyfarfod a gynhaliwyd ar 17 Ionawr. Roedd y cyfarfod yn cynnwys diweddariad ar y datblygiadau a'r negodiadau, cyflwyniadau ar barodrwydd, y Gronfa Ffyniant Gyffredin a Chronfa Bontio'r Undeb Ewropeaidd a'r camau nesaf i'w cymryd. Cynhaliwyd cyfarfod canlynol y Grŵp ar 21 Chwefror, ond nid yw ei gofnodion ar gael eto.

Ar 5 Mawrth, pasiwyd cynnig a gyflwynwyd gan Rebecca Evans, y Gweinidog Cyllid a Trefnydd. Roedd y cynnig yn gwrthwynebu'r cytundeb a gyflwynwyd gan Theresa May, yn datgan bod canlyniad 'dim cytundeb' yn annerbyniol, ac yn galw am ymestyn cyfnod Erthygl 50 i ail-negodi cytundeb. Mae'r cynnig wedi ei eirio fel a ganlyn:

> Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:
>
> 1. Yn ailadrodd ei wrthwynebiad i'r cytundeb niweidiol ar gyfer ymadael â'r UE y cytunwyd arno gan Lywodraeth y DU.
>
> 2. Yn cytuno y byddai canlyniad o ddim-cytundeb yn dilyn y negodiadau presennol ar ymadael â'r UE yn hollol annerbyniol ar 29 Mawrth 2019 neu ar unrhyw adeg.
>
> 3. Yn galw felly ar Lywodraeth y DU i gymryd camau ar unwaith i atal y DU rhag ymadael â'r UE heb gytundeb ac yn cytuno y dylai proses Erthygl 50 gael ei hestyn fel bod modd dod i gytundeb ar y ffordd orau ymlaen er mwyn diogelu buddiannau Cymru, yr Alban a'r Deyrnas Unedig gyfan.

Yn ystod cwestiynau'r Cyfarfod Llawn a ofynnwyd i Rebecca Evans, y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd, **ar 6 Mawrth** dywedodd fod Llywodraeth Cymru wedi galw ar Lywodraeth y DU 'dro ar ôl tro [...] fod yn rhaid cael cyllideb frys, fod yn rhaid cael cyllid ychwanegol, pe ceid Brexit 'dim bargen' trychinebus'.

Cyhoeddodd y Gweinidog Brexit, Jeremy Miles AC, ar 11 Mawrth **gymalau drafft posibl** ar gyfer y Bil Cytundeb Ymadael a ragwelir gan Lywodraeth y DU. Yn y datganiad cysylltiedig, dywedodd:

> Pwrpas ein cymalau drafft yw dangos sut y gallai newidiadau i'r Datganiad Gwleidyddol i adlewyrchu ein hamcanion polisi - yn bennaf, parhau i gymryd rhan mewn undeb tollau gyda'r UE a'r farchnad sengl - gael eu hangori yn y ddeddfwriaeth sylfaenol a fydd yn angenrheidiol i ddeddfu'r Cytundeb Ymadael yng nghyfraith y DU. [...] Mae'r cymalau drafft hefyd yn darparu y caiff Cynulliad Cenedlaethol Cymru (ac o bosib y deddfwriaethau datganoledig eraill) gyfrannu at y gwaith o lunio'r negodiadau ac y caiff y Cynulliad Cenedlaethol a Senedd y DU graffu ar y cytundeb(au) terfynol gyda'r UE. Yn olaf, maent yn darparu ar gyfer proses benderfynu Seneddol os daw yn glir nad oes modd i'r negodiadau gyda'r UE fynd ymhellach.

Mae'n werth nodi bod y cymalau a gynigir gan Lywodraeth Cymru yn cynnwys darpariaeth ar gyfer **gweithdrefn os nad oes cytundeb ar berthynas yn y dyfodol wyth mis cyn diwedd y cyfnod pontio.**

Ar 19 Mawrth, gwnaeth y Prif Weinidog **Ddatganiad yn y Cyfarfod Llawn** ar negodiadau'r UE. Nododd:

> In our view, there are two ways in which progress could be made... Renegotiating the political declaration in this fashion, by committing to participation in a customs union and the single market, together with dynamic alignment with the social, environmental and labour market standards of the European Union, would be welcomed, as we know, by the EU27 and, we believe, could be achieved quickly and outside the withdrawal agreement itself...
>
> A second vote is a proposition that is yet to secure a majority in the House of Commons. It would require a longer extension than 30 June, with all that it implies for European elections. And a second referendum campaign would be fought in a way that would inevitably be divisive. But let me reiterate again: if the House of Commons decides that a public vote is the way through the morass that has been created, then the Welsh Government will support that course of action.





# 4. Meysydd o ddiddordeb i'r Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol

## Adroddiad Pwyllgor Materion yr Alban yn Nhŷ'r Cyffredin: yr Alban, masnach a Brexit

Ar 10 Mawrth, cyhoeddodd Pwyllgor Materion yr Alban yn Nhŷ'r Cyffredin ei adroddiad ar **Yr Alban, Masnach a Brexit** yn dilyn lansiad ei ymchwiliad i ganfod beth yw blaenoriaethau'r Alban ar gyfer polisi masnach yn y dyfodol ar ôl Brexit; archwilio pa rôl y dylai'r gweinyddiaethau datganoledig ei chael wrth bennu polisi masnach y DU; ac ystyried sut mae'r ddwy Lywodraeth yn cydweithio i hybu allforion yr Alban. Daeth y Pwyllgor i ddysgu bod ailwampio polisi masnach yn gyfle i Lywodraeth y DU wella ei hymgysylltiad â'r gweinyddiaethau datganoledig. Mae adroddiad y Pwyllgor:

- Yn gofyn am ddiweddariad ar ymrwymiad Llywodraeth y DU i gyhoeddi concordat yn amlinellu rôl y gweinyddiaethau datganoledig ym mholisi masnach y DU yn y dyfodol;
- Yn argymell bod Llywodraeth y DU yn ystyried opsiynau newydd i hwyluso proses ymgynghori helaeth â'r gweinyddiaethau datganoledig wrth osod mandadau negodi yn y dyfodol, gan gynnwys sefydlu is-bwyllgor o'r Cyd-bwyllgor Gweinidogion ar fasnach ryngwladol. Cefnogwyd yr argymhelliad hwn gan Lywodraeth Cymru yn ei **thystiolaeth ysgrifenedig;**
- Yn argymell bod Llywodraeth y DU yn ymrwymo i gynnwys cynrychiolwyr o'r gweinyddiaethau datganoledig yn nhîm negodi y DU ar gyfer cytundebau masnach yn y dyfodol a fydd yn effeithio ar gymwyseddau datganoledig; ac
- Yn argymell bod Llywodraeth y DU yn nodi'r camau y bydd yn eu cymryd i gynnwys y gweinyddiaethau datganoledig ym mhob cam o'r broses negodi ar faterion masnach.

## Menter Cadernid Trefi

Ar 4 Mawrth, lansiodd Llywodraeth y DU gronfa gwerth £1.6 biliwn i ysgogi swyddi a thwf yn Lloegr. Gan ddefnyddio fformiwla seiliedig ar anghenion, bydd y gronfa Cadernid Trefi (Stronger Towns) yn hwb i gymunedau arfordirol, trefi marchnad, a threfi oedd gynt yn ddiwydiannol. Caiff dros hanner yr arian ei ddyrannu i ogledd Lloegr a bydd yn cael ei wasgaru dros saith mlynedd. Beirniadwyd cyhoeddiad y gronfa gan y gwledydd datganoledig gan nad yw'n eglur p'un a fydd cyllid ar gael iddynt. Cadarnhaodd Llywodraeth y DU y bydd yn ceisio sicrhau bod trefi tebyg yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon yn elwa o'r gronfa ac y byddant yn cyhoeddi'r wybodaeth am hyn "maes o law". Gofynnodd y Prif Weinidog Mark Drakeford am eglurder gan Lywodraeth y DU, gan nodi:

> It's not clear as to how much of the £1.6bn is to find its way into the Welsh budget.

Ers hynny mae Llywodraeth y DU wedi ymrwymo i nodi trefniadau ar gyfer Cymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon yn ei Adolygiad o Wariant. Mae mwy o wybodaeth am sut y bydd y gronfa'n gweithredu yn Lloegr ar gael ar wefannau **Cwestiwn ac Ateb** Gweinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol y DU.

## Effaith Brexit ar addysg uwch ac addysg bellach

Mae adroddiad y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg a gyhoeddwyd fis Rhagfyr 2018, **Gradd ar Wahân** yn ystyried effaith bosibl Brexit ar addysg uwch ac addysg bellach yng Nghymru. Ar 1 Chwefror **cyhoeddodd Llywodraeth Cymru** ei ymateb i adroddiad y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg. Y tri maes allweddol a nodir yn yr adroddiad yw mewnfudo myfyrwyr a staff; rhaglenni arwyddocaol yr UE (Erasmus+ a Horizon); a bodloni gofynion sgiliau diwydiannau ar ôl Brexit.

Derbyniodd Llywodraeth Cymru bob un o 12 argymhelliad yr adroddiad yn llawn, yn rhannol neu mewn egwyddor, gan nodi:

> Welsh Government remains committed to supporting HE and FE sectors in preparing for Brexit as we recognise their significant contribution to the economy, social justice, public services and culture in Wales and we have been very clear that we continue to welcome people from the EU working or studying in Wales.

Bydd Brexit â chytundeb a Brexit heb gytundeb ill dau, o dan y cynlluniau presennol, yn arwain at newidiadau sylweddol i sut mae staff a myfyrwyr yr UE yn dod i Gymru ac yn astudio yma, fel rhan o system fewnfudo fwy cyfyng yn y dyfodol. Ar gyfer meysydd allweddol eraill mewn addysg uwch ac addysg bellach, mae'r ansicrwydd gwleidyddol ynglŷn â phroses Brexit yn achosi cryn ansicrwydd.